Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024** |
| **DYDDIAD** | **30 Mai 2024** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet** |

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio:**

Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cychwyn Rhif 3, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2024

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n cychwyn gofynion deddfwriaethol ymarferol a gweithredol Deddf Caffael 2023. Dim ond Gweinidogion y Goron sydd â phwerau cychwyn o fewn y Ddeddf; fodd bynnag, mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn darpariaethau o fewn y Ddeddf Caffael ar gyfer Awdurdodau Datganoledig Cymru

**Diben y Rheoliadau**

Bydd yr offeryn statudol hwn yn pennu 28 Hydref 2024 yn ddyddiad y bydd

darpariaethau o sylwedd y Ddeddf yn dod i rym, gan roi effaith gyfreithiol i'r drefn newydd. Bydd hefyd yn dirymu'r rheoliadau presennol. Bydd yr offeryn yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed sy'n nodi sut y bydd y rheoliadau presennol yn cael eu disodli'n raddol, a sut yr ymdrinnir â chaffael parhaus a chontractau presennol yn ystod y cyfnod trosiannol.

Ni chaiff Gweinidog y Goron, yn unol ag adran 127(3) o Ddeddf Caffael 2023, wneud rheoliadau penodedig o dan isadran 127(2) heb gydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau ar gael yma: The Procurement Act 2023 (Commencement No. 3 and Transitional and Saving Provisions) Regulations 2024 (legislation.gov.uk)

Bydd angen Rheoliadau Cychwyn ychwanegol i gychwyn darpariaethau pellach yn Neddf Caffael 2023, a bydd angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer y rhain hefyd.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Ni nodwyd unrhyw faterion o'r fath.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i Weinidog y Goron wneud y Rheoliadau Cychwyn hyn i bennu'r dyddiad dod i rym, gorchmynion cychwyn a threfniadau trosiannol.